# ADRODDIAD EFFAITH

## 25-26

COLEG CAMBRIA

# UCHELGAIS AR Y CYD.
# DYFODOL AR Y CYD.

Mae Coleg Cambria yn cael ei ddiffinio gan ei bobl a'u straeon - y miloedd o ddysgwyr, staff a phartneriaid sy'n ffurfio ein cymuned ledled Gogledd Ddwyrain Cymru. Nod ein Hadroddiad Effaith yw adrodd rhai o'r straeon hyn yn unig.

Nid yw ein llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl canlyniadau academaidd yn unig, ond yn bennaf gan gynnydd ein myfyrwyr, gan gynnwys sgiliau y maent wedi'u datblygu, y gwydnwch a'r uchelgais y maent yn eu meithrin a'r cyfeillgarwch parhaol y maent yn ei ffurfio.

**Eleni, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad i sicrhau bod Llais y Dysgwyr wedi'i wreiddio ym mhopeth a wnawn.**

Wrth i chi ddarllen yr adroddiad hwn, fe welwch sut nad yw ein myfyrwyr yn gyfranogwyr yn eu haddysg yn unig, ond yn bartneriaid gweithredol wrth ei llunio.

**Rydym yn adeiladu amgylchedd sy'n gynhwysol, lle mae pob unigolyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a lle mae llesiant yn cael ei drin â'r un pwysigrwydd â chymhwyster.**

Rydym hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel angor cymunedol. Rydym yn falch o fod yn sefydliad **dwyieithog** sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan sicrhau ei bod yn ffynnu yn ein gweithrediadau dyddiol.

**Rydym hefyd yn dyfnhau ein cysylltiadau â diwydiant lleol i sicrhau bod ein dysgwyr yn ein gadael nid yn unig gyda thystysgrif, ond gyda'r sgiliau i yrru ein heconomi leol ymlaen.**

Mae ein cyfeiriad yn glir. Rydym yn adeiladu coleg sy'n grymuso ac addasu ein dysgwyr ac yn gwrando arnynt.



**Yana Williams**
**Prif Weithredwr**
**Coleg Cambria**



**Tim Wheeler**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Coleg Cambria**


COLEG
CAMBRIA




**1,974** O ddysgwyr wedi cael eu cefnogi gan ein tîm Iechyd Meddwl a Llesiant

**47** Anogwr Cynnydd Pwrpasol yn arwain ein myfyrwyr

**1,000+** O fyfyrwyr ysgol yn ennill sgiliau'r diwydiant gyda ni bob wythnos

## RHAGLEN CYSWLLT YSGOLION




**1,000 O DDYSGWYR**

bob blwyddyn wedi cael hyfforddiant a gydnabyddir gan y diwydiant

# CEFNOGAETH SY'N NEWID BYWYDAU

Yng Ngh† Cambria, rydym yn gwybod bod effaith gwirioneddol yn cael ei mesur gan fwy na chanlyniadau arholiadau yn unig. Mae wedi'i diffinio gan sut rydym yn sicrhau bod **pob dysgwr** yn cael cyfle teg i lwyddo. Eleni, rydym wedi buddsoddi'n fawr mewn cefnogaeth holl gynhwysol sy'n gwneud cyflawniad academaidd a galwedigaethol yn bosib.

Ar draws ein 5 safle, rydym yn darparu cefnogaeth sy'n grymuso ein myfyrwyr. Y llynedd, gwnaeth ein tîm pwrpasol o **Staff Cymorth Academaidd** a'n **47 Anogwr Cynnydd** arwain dysgwyr drwy eu taith addysg. Hefyd mae ein **hymgynghorwyr Iechyd Meddwl a Llesiant** wedi darparu ymyriadau hanfodol, wedi'u teilwra i **1,974 o fyfyrwyr**.

Rydym yn hynod o falch o'n darpariaeth **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** a **Chymorth Dysgu.** Drwy hyfforddiant cynhwysiant wedi'i dargedu a thimau arbenigol, mae ein dysgwyr **ag anghenion ychwanegol wedi cyflawni cyfraddau llwyddiant a chadw sy'n gyfartal â'u cyfoedion niwronodweddiadol neu'n uwch na nhw.** Dyma union ddiffiniad diwylliant coleg cynhwysol.

Ar ben hynny, mae ein cyrhaeddiad yn ymestyn yn ddwfn i'n cymunedau lleol. Drwy ein **Rhaglen Cyswllt Ysgolion**, rydym yn partneru ag **Awdurdodau Addysg Lleol Wrecsam, Sir Ddinbych, a Sir y Fflint** i ddarparu hyfforddiant a gydnabyddir gan y diwydiant i dros **1,000 o ddysgwyr** bob wythnos. Ynghyd â **chefnogaeth ariannol** gadarn i filoedd o'n dysgwyr, rydym yn weithredol yn cael gwared ar y rhwystrau i addysg.

COLEG CAMBRIA

## RHIA GRUFFYDD,

Dysgwr Safon Uwch

"Cyn dechrau yng Ngholeg Cambria, roedd meddwl am bontio yn fy llethu i. Fodd bynnag, mi wnaeth y gefnogaeth bontio rhagorol gan y coleg a'r Tîm Cynhwysiant newid popeth. Mi wnaeth cyrchu lleoliadau tawel a chael cymorth iechyd meddwl pwrpasol yn ystod fy arholiadau roi'r hyder i mi i ffynnu. Hebddyn nhw, fyddwn i ddim wedi medru llwyddo."

## LIZZIE GRUFFYDD,

Rhiant

"Fel rhiant, mae'n anodd gweld eich merch yn symud i'r coleg, ond mi wnaeth cefnogaeth fanwl Cambria wrth bontio tawelu ein meddyliau ni'n syth. Roedden nhw'n deall Rhia o'r cychwyn cynta'. Pan gynyddodd pwysau'r arholiadau, roedd y gofal iechyd meddwl rhagweithiol a gafodd hi yn hanfodol. Mae ei gwylio hi'n llywio'r straen gyda gwydnwch wedi bod yn rhyddhad i ni fel teulu."

# EIN LLAIS, EIN COLEG



Yng Ngholeg Cambria, rydym yn gwybod mai'r amgylcheddau dysgu amlycaf a mwyaf llwyddiannus yw'r rhai lle mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn eu stori Cambria. Rydym yn ymwybodol bod dod i'r coleg yn golygu mwy na chael cymhwyster yn unig; yr hyn sy'n bwysig yw adeiladu rhwydweithiau, datblygu annibyniaeth, a gwneud ffrindiau oes.

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu gwerthfawrogi. Eleni, gwnaeth ein rhwydwaith pwrpasol o 301 o Gynrychiolwyr Myfyrwyr sicrhau bod llais y dysgwyr yn cael ei ymgorffori ym mhopeth a wnawn. Trwy'r cynrychiolwyr hyn, rydym yn darparu llwyfannau clir i'r unigolyn a'r lleisiau cyfunol i siapio'n dyfodol. Pan mae ein myfyrwyr yn siarad, rydym yn gwrando, ac yn bwysicach na dim, rydym yn gweithredu.**

**Yn hollbwysig, rydym wedi ymrwymo i atal rhagfarn yn weithredol ac adeiladu ymddiriedaeth ar draws ein cymuned. Trwy ein rhaglen Gaplaniaeth eang, cafodd 2,691 o fyfyrwyr o 192 o sesiynau ystafell ddosbarth ar draws ein holl safleoedd hyfforddiant pwrpasol, wedi'i deilwra i gyd-destun y cwricwlwm eleni. Ar ben hynny, er mwyn sicrhau bod ein hamgylcheddau'n wirioneddol gynhwysol, rydym yn ehangu ein Hystafelloedd Aml-Ffydd ac Adfyfyrio, gydag ymrwymiad i'w cael ar gael ar bob safle erbyn Awst 2026.**

Ein myfyrwyr yw penseiri eu profiad eu hunain. Drwy eu grymuso i arwain y sgwrs a meithrin diwylliant o barch dwfn, rydym yn sicrhau bod Coleg Cambria yn parhau i esblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r bobl amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.




**2,691** O fyfyrwyr wedi hyfforddi i atal rhagfarn ac adeiladu ymddiriedaeth

**301** Cynrychiolwr Myfyrwyr yn siapio ein dyfodol

**5** Safle wedi'u huno gan ein gwerthoedd cynhwysol

## TOBY TAYLOR

Llywydd Myfyrwyr Coleg Cambria

**"Fel Llywydd Myfyrwyr, dwi'n falch iawn o'r gymuned rydyn ni'n ei hadeiladu gyda'n gilydd yng Ngholeg Cambria. Mae'r Adroddiad Effaith yma yn profi ein bod ni, fel coleg, yn canolbwyntio ar fwy na chanlyniadau yn unig. O'r gefnogaeth llesiant a lleoliadau cynhwysol sy'n torri tir newydd, i'n gwaith gweithredol yn gwarchod yr amgylchedd a'n teithiau byd-eang sy'n newid bywydau, mae Cambria wir yn grymuso'r holl fyfyrwyr.**



**Yn fwy pwysig a dim, mae'n goleg sy'n gwrando. Gan sicrhau bod ein gweledigaethau'n siapio pob pen derfyniad, dydyn ni ddim yn mynd i'r coleg yn unig - rydyn ni'n bartneriaid gweithredol mewn creu diwylliant y coleg."**



**1,000+** O Bartneriaethau Cyflogwyr yn gyrru ein rhanbarth

**2,500** O Brentisiaid Gweithredol yn adeiladu eu gyrfaoedd

**20,000** O ddysgwyr rhan-amser yn uwchsgilio ar gyfer y dyfodol

## JAMES ROBERTSON

Rheolwr Adnoddau AD, Kronospan

**"Mae Cambria yn parhau i'n darparu ni gyda chefnogaeth o'r radd flaenaf ar gyfer ein hanghenion hyfforddiant. Maen nhw'n chwarae rhan annatod o hyfforddi a datblygu ein holl weithwyr, ac yn ein cefnogi ni i aros ar flaen y gweddill yn y diwydiant gweithgynhyrchu paneli pren."**

kronospan

# SGILIAU AR GYFER Y RHANBARTH

Rydym wedi deall erioed bod ein cyfrifoldebau'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Fel y **prif ddarparwr ar gyfer sgiliau yn y Gogledd Ddwyrain**, rydym yn gweithio mewn partneriaeth weithredol â dros **1,000 o gyflogwyr**, o fusnesau bach a chanolig lleol i arweinwyr byd-eang fel **Airbus, JCB, a Toyota**.

**Eleni, nid yw'r rôl honno erioed wedi bod yn bwysicach. Gyda chyhoeddiad Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, mae'r fenter £160 miliwn hon yn dibynnu ar un adnodd hollbwysig: pobl fedrus. Coleg Cambria yw'r bont rhwng yr uchelgais honno a realiti. Fel Deiliad Contract Prentisiaeth gwerth £12 miliwn, mae ein darpariaeth yn helaeth ac wedi'i thargedu'n fanwl, gan hyfforddi dros 2,500 o Brentisiaid ar hyn o bryd a chefnogi 20,000 o ddysgwyr rhan-amser ar draws 887 o gyrsiau rhan-amser.**

Er mwyn atgyfnerthu ein rôl effeithiol yn y rhanbarth ymhellach, rydym wedi lansio'r Hwb Sgiliau Uwch mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam. Mae'r 'siop un stop' hon yn creu llwybrau ystwyth o Lefel 2 i Lefel 7, gan gefnogi twf economaidd yn uniongyrchol.

Nid ydym yn dysgu sgiliau yn unig; rydym yn adeiladu gyrfaoedd sy'n arwain y diwydiant. Cafodd y rhagoriaeth hon ei phrofi ar y llwyfan cenedlaethol wrth i Cambria gynrychioli'r **tîm mwyaf o Gymru yn rowndiau terfynol WorldSkills UK**, gan sicrhau nifer o fedalau ar draws disgyblaethau hanfodol gan gynnwys **Weldio, Cynnal a Chadw Awyrennau, a Therapi Harddwch**. Pan fydd ein rhanbarth yn tyfu, mae ein dysgwyr yn tyfu gydag ef.

**Dyma sut rydym yn troi addysg yn gyflogaeth.**

## TOMAS ANKERS

Cystadleuydd Rownd Derfynol WorldSkills - Shanghai 2026 Melino CNC

Dair blynedd yn ôl, dechreuodd Tomas Ankers ei gwrs lefel 2 mewn peirianneg yng Ngholeg Cambria. Heddiw, mae'r prentis Electroimpact 18 oed yn paratoi i gynrychioli'r DU yn WorldSkills Shanghai mewn Melino CNC. Mae taith nodedig Tomas i'r llwyfan byd-eang yn cynnwys gorffeniadau canmoladwy iawn yn WorldSkills UK a Medal am Ragoriaeth yn EuroSkills. Gan ddarganfod angerdd dros weithgynhyrchu manwl gywir ymarferol, mae Tomas yn priodoli ei lwyddiant i'w awydd diysgog i ennill, ochr yn ochr â chefnogaeth eithriadol gan ei gyflogwr a staff ymroddedig Coleg Cambria. Mae ei stori ysbrydoledig yn tynnu sylw'n berffaith at sut mae ein partneriaethau diwydiant cadarn a'n hyfforddiant o'r radd flaenaf yn grymuso prentisiaid lleol i gystadlu'n fyd-eang



# CYMRAEG 2050

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn falch o'n treftadaeth ac rydym wedi ymrwymo'n wirioneddol i ddyfodol yr iaith Gymraeg. Rydym yn cydnabod bod y **Gymraeg yn sgil hanfodol** i'r gweithlu modern.

Rydym yn deall, er mwyn cyrraedd yr uchelgais genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod yn rhaid i'r iaith fyw y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dyna pam rydym yn canolbwyntio ar greu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol, weladwy ac amlwg o brofiad bob dydd Cambria.

**Fel darparwr ar gyfer Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ogystal â Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, rydym yn darparu cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned i dros 1,500 o fyfyrwyr. Yn hollbwysig, rydym hefyd yn darparu hyfforddiant arbenigol 'Cymraeg Gwaith' i dros 2,000 o weithwyr mewn partneriaeth â sefydliadau angor mawr fel Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Chlwb Pêl-droed Wrecsam.**

Y tu mewn i'r coleg, mae ein **Canolfan Ragoriaeth y Gymraeg newydd, CAMU, ar safle Iâl** yn darparu lle cymdeithasol a lle y gallai staff a myfyrwyr drochi yn y Gymraeg.

Rydym wedi buddsoddi yn ein staff drwy'r cynllun cymhelliant **Addysgwr Dwyieithog**, ac wedi cyflawni **cynnydd o 7% yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu gwaith yn ddwyieithog**.

**Ar ben hynny, fe wnaeth bron i 1,500 o ddysgwyr elwa o unedau Cymraeg wedi'u teilwra a oedd wedi'u hintegreiddio'n uniongyrchol i'w cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Saesneg.**

Drwy gydweithio'n weithredol â phartneriaid fel **Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, a Mentrau Iaith**, rydym yn sicrhau, o'r ystafell ddosbarth i'r gymuned, fod y Gymraeg yn hygyrch, yn amlwg, ac yn fantais wirioneddol i ddyfodol ein dysgwyr.

'Mae Coleg Cambria yn pwysleisio pwysigrwydd strategol y Gymraeg yn gryf drwy gynnig cymhellion ariannol i ymarferwyr, yn ogystal ag amser digyswllt o'u hamserlenni addysgu yn ystod yr hyfforddiant, er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu sesiynau. Mae hwn yn enghraifft nodedig o gynllunio ieithyddol drwy gynllunio'r gweithlu.'

**ADRODDIAD THEMATIG ESTYN: CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YN Y SECTORAU ÔL-16**




**2,000+** O gyflogwyr wedi uwchsgilio drwy ein partneriaethau Cymraeg Gwaith

**1,500** O ddysgwyr yn y gymuned yn astudio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain

**7%** O gynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n cwblhau eu gwaith coleg yn ddwyieithog

## MAGI ROBERTS

Lefel 3 mewn Technoleg a Chyfryngau Creadigol

**"Dwi wedi cael fy addysgu drwy'r Gymraeg ers erioed ac roeddwn i eisiau parhau yn Cambria i gynnal fy sgiliau iaith. Roedd cefnogaeth y tîm Cymraeg yn anhygoel - fe wnaethon nhw helpu gyda chyfieithiadau, caniatáu i mi redeg clybiau Cymraeg a gweithio yn yr eisteddfod. Mi wnes i ennill Siaradwr Cymraeg y Flwyddyn a dod yn llysgennad Cymru. Erbyn hyn dwi'n hunangyflogedig, dwi'n rhedeg 'Magi Roberts Media' fel ffotograffydd a fideograffydd llawrydd dwyieithog, diolch i'w help i hyrwyddo fy ngwasanaethau dwyieithog."**

# SIAPIO EIN CYMUNEDAU, ADEILADU EIN DYFODOL

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn credu bod addysg yn ymwneud â mwy na chyflawniad personol; mae'n ymwneud â chyfrifoldeb dinesig. Eleni, mae ein dysgwyr **Twf Swyddi Cymru+** o bob rhan o'n safleoedd wedi camu allan o'r ystafell ddosbarth i gyflwyno prosiectau trawsnewidiol, ymarferol sy'n elwa'n uniongyrchol i'n cymunedau.

O dirlunio ac adfer helaeth ym **Mharc Gwledig Tŷ Mawr** i adnewyddu'r **Pafiliwn Bowlio yn Kynaston**, mae ein dysgwyr wedi adfywio mannau cyhoeddus i'w gwneud yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch.

Mae eu heffaith yn ymestyn ar draws y cenedlaethau - boed yn ymgymryd â gwaith sylfaenol hanfodol a phaentio ochr yn ochr â phreswylwyr yng **Nghartref Gofal Chirk Court**, yn paratoi cyfleusterau yn **Ysgol Gynradd Lôn Ddu**, neu'n herio tywydd y gaeaf i ail-wynebu a datblygu safle hanesyddol **Dyffryn Maes Glas.**













| | |
|---|---|
| **37** | Prosiect cymunedol wedi'u cwblhau |
| **22** | Grŵp cymunedol wedi elwa |
| **1110** | Dysgwr wedi cymryd rhan |
| **46** | Cydweithiwr yn y coleg wedi cymryd rhan |

Yn hollbwysig, nid yw'r prosiectau gweithredu cymunedol hyn - gan gynnwys mentrau amgylcheddol gyda Cadwch Gymru'n Daclus ac Outside Lives CIC - yn bethau ychwanegol dewisol. Maent wedi'u hymgorffori'n ddwfn yng nghwricwlwm Twf Swyddi+. Drwy gymryd perchnogaeth o'r mannau hyn, mae ein dysgwyr yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, byd go iawn fel rheoli amser, gwydnwch a chyfrifoldeb cymunedol.

**Rydym yn hynod falch o'r bobl ifanc hyn. Nid ydynt yn unig yn meithrin eu hyder a'u rhagolygon gyrfa eu hunain; maent yn profi bod effaith Coleg Cambria yn cael ei theimlo mewn cymunedau ledled y Gogledd Ddwyrain.**








**4,793** O leisiau myfyrwyr wedi'u clywed drwy ein Harolwg LIFE

**9.5%** O gynnydd mewn croesawu staff sydd ag anableddau i'n tîm

**5** Safle yn cynnwys Mannau Aml-Ffydd a Chred pwrpasol

# HYRWYDDO TEGWCH A PHERTHYN

Rydym yn credu bod rhaid i addysg ragorol gael ei hategu gan **ddiwylliant sylfaenol o garedigrwydd**. Rydym yn gweithio'n weithredol i nodi a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag ffynnu'n deg, gan sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi, ac yn cael eu gwerthfawrogi am bwy yn union ydyn nhw.

Eleni, rydym wedi cymryd camau sylweddol a rhagweithiol i sicrhau bod ein safleoedd yn fannau diogel. Dan arweiniad ein **tîm Tegwch a Pherthyn newydd**, lansiwyd yr offeryn rhoi gwybod ar-lein **'Herio Ymddygiad!'**, gan rymuso dysgwyr i roi gwybod am aflonyddu yn ddiogel ac yn uniongyrchol.

Rydym hefyd yn gwybod bod cynhwysiant gwirioneddol yn gofyn am fannau corfforol sy'n adlewyrchu ein cymuned amrywiol. **Rydym yn falch o gynnig Mannau Aml-Ffydd a Chred pwrpasol ar ein 5 safle**. Ar ben hynny, mae ein **Hwb Gosmetoleg arloesol newydd yng Nglannau Dyfrdwy** wedi'i chynllunio gyda chynhwysiant yn ganolog iddi, gan gynnig gwasanaethau pwrpasol yn amrywio o Therapi Cyffyrddiad Ysgafn Canser i Ofal Gwallt LHDTC+.

Yn hollbwysig, rydym yn goleg sy'n gwrando. Cafodd ein Harolwg **LIFE Dysgwyr 4,793 o ymatebion** eleni - cynnydd o 22.2% - gan sicrhau bod profiadau bywyd ein myfyrwyr yn llunio ein cefnogaeth yn uniongyrchol. Mae'r ymrwymiad hwn i degwch yn ymestyn i'n gweithlu; llwyddodd ein menter **Recriwtio Cynhwysol** i yrru **cynnydd o 9.52% mewn cyflogi pobl ag anableddau**, gan sicrhau bod y staff sy'n arwain ein dysgwyr yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu mewn gwirionedd.

COLEG CAMBRIA | ColegauCymru CollegesWales

Mae Coleg Cambria yn falch o gydweithio â Cholegau Cymru i chwarae rhan flaenllaw mewn menter arloesol ledled Cymru i fynd i'r afael â misogynedd a hyrwyddo perthnasoedd parchus ar draws y sector Addysg Bellach. Wedi'i ariannu gan Taith, gwelodd y cydweithrediad rhyngwladol hwn ein tîm Tegwch a Pherthyn yn cyfnewid arferion gorau gydag addysgwyr yng Nghanada.



# PERSBECTIF BYD-EANG, EFFAITH LEOL

Rydym yn credu bod **profiad coleg gwirioneddol drawsnewidiol** yn gofyn am gyfleoedd sy'n gwthio dysgwyr i fynd y tu hwnt i'r hyn y maent yn gyfforddus gyda, yn profi eu sgiliau yn y byd go iawn, ac yn ehangu eu gorwelion. Dyna pam nad yw cyfoethogi byth yn cael ei drin fel ychwanegiad, mae wedi'i **wreiddio'n ddwfn yn ein darpariaeth graidd**.

Yn rhyngwladol, mae ein dysgwyr wedi mynd â'u sgiliau ar draws Ewrop ac Affrica. Yn Tanzania, cyflwynodd myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol addysg iechyd hanfodol i 4,000 o fyfyrwyr ysgol gynradd. Yn Sbaen, bu myfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr â Sefydliad Morfilod a Dolffiniaid yr Iwerydd i gasglu data cadwraeth forol byw.

**Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, cymerodd ein myfyrwyr ran mewn dros 420 o deithiau addysgol. Yn lleol, cafodd dysgwyr gyfle hanfodol i ddod i gysylltiad â'r diwydiant drwy ymweliadau â Llys y Goron yr Wyddgrug, Stiwdios Ffilm Arla a gwasanaethau brys lleol.**




Aeth myfyrwyr amaethyddiaeth i ymweld â fferm coleg CAFRE a ffatri SlurryKat yng Ngogledd Iwerddon i gael profiad ymarferol o gynhyrchu cnydau a deall y gadwyn gyflenwi peiriannau amaethyddol.



Cyflwynodd myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol addysg ataliol i 4,000 o blant ysgol gynradd yn Arusha, gan gymhwyso eu cwricwlwm galwedigaethol i leihau'r baich ar ysbytai lleol.



Aeth myfyrwyr Gwyddor Fforensig i ymweld â chyfleusterau ac amgueddfeydd sy'n gysylltiedig â chymunedau Heddlu a Chudd-wybodaeth Dwyrain yr Almaen i ddysgu am hanes yr Almaen wedi'i rhannu.

**420+** O deithiau addysgol ac ymweliadau â'r diwydiant wedi'u cwblhau eleni

**8** Cyrchfan ryngwladol wedi'u hymweld â nhw ar draws Ewrop ac Affrica

**Mae'r cyfleoedd byd-eang hyn yn gynhwysol yn eu hanfod. Yn ddiweddar, fe wnaethon ni gefnogi 12 o ddysgwyr niwroamrywiol i gwblhau lleoliad gwaith technoleg a chynaliadwyedd pythefnos yn Pistoia, yr Eidal, gan feithrin eu dewrder a'u hannibyniaeth broffesiynol.**

Boed yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ymateb brys gyda diffoddwyr tân yn Zaragoza, yn astudio cudd-wybodaeth hanesyddol yn Berlin, neu'n dadansoddi peirianneg amaethyddol yn Iwerddon, mae ein dysgwyr yn gwneud mwy na pharatoi ar gyfer arholiadau. Maent yn datblygu'r ymwybyddiaeth fyd-eang sydd ei hangen i gamu i'r byd fel gweithwyr proffesiynol hyderus a chyflawn.



Cwblhaodd dysgwyr niwroamrywiol leoliadau gwaith arwyddocaol yn FODY, busnes cymdeithasol cynaliadwy, gan ymgysylltu ag arferion economi gylchol i brofi sut mae addasrwydd a chreadigrwydd yn cael eu gwerthfawrogi'n broffesiynol.



Cwblhaodd myfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai hyfforddiant ymateb brys gyda diffoddwyr tân Zaragoza a heriau dygnwch corfforol yn Sbaen i feithrin sgiliau arwain a gwydnwch hanfodol ar gyfer eu gyrfaoedd.



Gweithiodd myfyrwyr mewn partneriaeth â Sefydliad Morfilod a Dolffiniaid yr Iwerydd yn Tenerife, gan gynnal gweithdai casglu data morol a chadwraeth byw i ddeall effaith twristiaeth gynaliadwy.



# MADE

**Cynyddu Cyrhaeddiad a Datblygu Pawb. Mae 100% o'n dysgwyr llawn amser yn cael Cynllun Dysgu Unigol i gadw eu huchelgeisiau ar y trywydd iawn.**

**350,000** Awr o annog a chefnogaeth bwrpasol wedi'u cyflwyno'n flynyddol

**5,000+** Dysgwr wedi'u harwain drwy ein rhaglen MADE

**900** Cais prifysgol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus drwy UCAS

# NID CWRS YN UNIG

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn gwybod bod dod i'r coleg yn golygu mwy na phasio arholiadau yn unig; y canolbwynt yw paratoi bobl ifanc ar gyfer bywyd.

Dyma pam rydym wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi'r "myfyriwr cyfan" trwy ein **rhaglen arloesol MADE - Cynyddu Cyrhaeddiad a Datblygu Pawb.**

**Gan weithredu ar draws ein holl safleoedd, mae menter MADE yn sicrhau nad yw gofal bugeiliol yn ychwanegiad. Mae pob dysgwr llawn amser yn cael eu paru ag un o'n Hanogwyr Cynnydd pwrpasol, gan warantu bod ganddynt bwynt cymorth cyson a dibynadwy o'u diwrnod cyntaf yn Cambria i'w camau nesaf.**

Mae hwn yn ymrwymiad enfawr. Eleni, darparodd ein tîm hyd at **350,000 awr** o hyfforddiant wedi'i deilwra i fwy na **5,000 o fyfyrwyr**. Trwy sesiynau rhyngweithiol a **Chynlluniau Dysgu Unigol**, rydym yn mynd i'r afael â'r heriau byd go iawn y mae pobl ifanc yn eu hwynebu - o **wydnwch meddyliol a diogelwch ar-lein i dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a chyflogadwyedd**.

## MAGDA KRYSZCZUK

Myfyriwr Safon Uwch

**"Allwn i ddim bod wedi gofyn am Anogwr Cynnydd gwell. Roedd cydbwyso Safon Uwch mewn Cemeg, Seicoleg a Llenyddiaeth Saesneg yn teimlo'n llethol ar adegau, ond diolch i'r sesiynau galw heibio wythnosol cefais y gwydnwch meddyliol a'r cyngor ymarferol roeddwn i'w hangen. Nid dim ond gwirio fy llesiant oedd yr Anogwr yn ei wneud; roedd yn hyrwyddo fy nyfodol yn weithredol, gan dreulio amser yn fy helpu i berffeithio fy natganiad personol a'm cefnogi i lywio fy nghais UCAS. Dwi'n mynd i Brifysgol Caer i astudio Addysg Gynradd, diolch iddo fo am gredu ynof fi!"**



**Ond mae MADE yn ymwneud â'r dyfodol yn ei hanfod. Boed yn helpu i lunio dros 900 o geisiadau UCAS llwyddiannus neu'n gweithio ochr yn ochr â phartneriaid fel Syniadau Mawr Cymru i sbarduno uchelgais entrepreneuraidd, mae ein Hanogwyr Cynnydd yno i ddatgloi potensial.**

Nid ydym yn olrhain cynnydd academaidd yn unig; rydym yn meithrin yr hyder, y sgiliau bywyd a'r annibyniaeth sydd eu hangen ar ein dysgwyr i ffynnu'n wirioneddol.

# CREU DYFODOL GWYRDDACH

Yng Ngholeg Cambria, ein nod yw ymgorffori cynaliadwyedd fel egwyddor graidd ar draws pob agwedd ar fywyd coleg, gan sicrhau y gall dysgwyr a chydweithwyr gyfrannu'n gadarnhaol at economi fwy gwyrdd. Rydym yn ymwybodol bod cyfrifoldeb amgylcheddol gwirioneddol yn gofyn am fwy na pholisi yn unig; mae'n gofyn am fuddsoddiad corfforol enfawr ac arweinyddiaeth weithredol, ymarferol gan fyfyrwyr.

Er mwyn lleihau ein heffaith ar y blaned, rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn cyfleusterau sy'n effeithlon o ran ynni. Wedi'i ysgogi gan gyllid mawr, gan gynnwys grant datgarboneiddio o **£1.7 miliwn a gefnogir gan y Llywodraeth**, rydym yn trawsnewid ein seilwaith.

Ar draws ein safleoedd, cynhyrchodd ein **1,300+ o baneli solar 265,215 kWh o drydan adnewyddadwy** eleni, sy'n ddigon i bweru **98 o gartrefi am flwyddyn gyfan**.

Rydym hefyd yn hynod falch mai adeilad addysgu newydd Hendre yn Llysfasi yw **Adeilad Carbon Niwtral cyntaf y coleg**.

Ond mae ein pobl yn gyrru ein huchelgais werdd yn y bôn. Mae ein myfyrwyr yn cymryd yr awenau, gan blannu **1,500 o goed cymysg brodorol** bob mis Tachwedd i wrthbwyso ein hôl troed carbon yn weithredol. Yn y cyfamser, mae ein tîm tiroedd ymroddedig yn rheoli **dolydd blodau gwyllt sy'n cyfateb i 2.25 o gaeau pêl-droed**, gan gynhyrchu digon o neithdar i fwydo **380,000 o wenyn y dydd**.

O gael gwared ar **90% o boteli plastig** o'n mannau gwerthu lluniaeth, i osod **gerddi glaw** arloesol sy'n atal llifogydd **mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru**, mae ein cymuned yn profi bod amddiffyn y blaned yn dechrau yma yn y Gogledd Ddwyrain.



Adeiladu'r Dyfodol: Cyfleuster addysgu newydd Hendre yn Llysfasi yw Adeilad Carbon Niwtral cyntaf Coleg Cambria yn swyddogol, wedi'i gynllunio i gyflawni **sgôr 'Rhagorol'** BREEAM.



**265,215** kWh O ynni solar wedi'i gynhyrchu - digon i bweru 98 o gartrefi!

**1,500** O goed brodorol wedi'u plannu bob blwyddyn gan ein dysgwyr

**380,000** O wenyn wedi'u bwydo bob dydd gan ein dolydd blodau gwyllt ar ein safleoedd

# MANNAU DYSGU YSBRYDOLEDIG AC ARLOESOL

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn gwybod bod addysg o'r radd flaenaf yn gofyn am amgylcheddau o'r radd flaenaf. Nid ydym yn unig yn gwella ein hystad trwy fuddsoddiad cyfalaf, **rydym yn datblygu dyfodol economi'r Gogledd Ddwyrain yn weithredol**.

**Drwy fuddsoddi ar draws ein safleoedd, rydym wedi creu mannau ysbrydoledig, safonol y diwydiant, ar gyfer ein dysgwyr sy'n pontio'r bwlch yn uniongyrchol rhwng addysg a chyflogaeth.**

O wardiau clinigol arloesol i adeiladau eco arobryn, mae'r cyfleusterau hyn yn gwneud llawer rhagor na dim ond lletya ein cwricwlwm. Maent yn grymuso ein dysgwyr, yn cefnogi eu llesiant meddyliol, ac yn darparu'r union brofiad masnachol ymarferol y mae ein partneriaid cyflogwyr yn ei fynnu.







**Mae ein Hwb Sgiliau Galwedigaethol Hafod gwerth £20 miliwn yn Wrecsam** yn ehangu ein cyfleusterau cwricwlwm. Mae'n cynnwys **bwyty masnachol, theatr berfformio, ac ystafell ffitrwydd o safon fasnachol** wrth fodloni safonau cynaliadwyedd **Rhagorol BREEAM**.







**Mae Academi Gofal Iechyd a Therapïau gwerth £16.2 miliwn yn ein safle Iâl** yn darparu ardaloedd hyfforddi hyblyg ac arbenigol i **550 o ddysgwyr.** Mae hyn yn cynnwys **wardiau efelychu ysbyty** ac **ystafell ymgolli 360 gradd** arloesol gydag effeithiau aml-synhwyraidd.



**Mae Canolfan Arloesi Sero Net y coleg, gwerth £9 miliwn yn Llysfasi,** wedi ennill gwobrau. Mae'n cynnwys ffrâm bren gynaliadwy arloesol a **wal ddringo** fertigol i feithrin hyder myfyrwyr. Mae'n darparu amgylchedd ecogyfeillgar i **250 o ddysgwyr peirianneg a thir.**

**£49 MILIWN+** Wedi'i fuddsoddi mewn cyfleusterau llesiant a safony diwydiant ar draws ein safleoedd

**SERO NET.** Statws swyddogol ein canolfan arloesi arobryn yn y DU yn Llysfasi




**Mae ein Canolfan Ragoriaeth y Gymraeg - CAMU sydd werth £1.9 miliwn ar ein safle Iâl** yn darparu amgylchedd i **ddysgwyr drochi eu hunain yn eu datblygiad o'r Gymraeg.** Mae hyn yn trawsnewid yr amgylchedd dysgu ar gyfer **500+ o ddysgwyr,** prentisiaid a'r gymuned leol.

**Mae'r arena e-chwaraeon o'r radd flaenaf yng Nglannau Dyfrdwy** sy'n arfogi **150 o ddysgwyr** gyda pheiriannau gemau manyleb uchel. Mae'r cyfleuster modern, uwch-dechnoleg hwn hefyd **i gynnal digwyddiadau e-chwaraeon cenedlaethol.**





**Mae'r Hybiau Llesiant ar bob safle** yn cynnwys goleuadau hwyliau, dodrefn sy'n lleihau gorbryder a thaflunio fideo. Maent yn cynnig **lleoliad ymlaciol pwrpasol i fyfyrwyr ymlacio, adfyfyrio, a dod at eu hunain.**

# STRAEON CAMBRIA

Yng Ngholeg Cambria, **mae ein straeon o'n cymuned yn dyst i'n heffaith**. Mae eleni wedi cael ei ddiffinio gan fuddsoddiadau sy'n torri tir newydd a chyflawniadau myfyrwyr eithriadol.

O lansio **cyfleusterau dysgu sydd werth miliynau o bunnoedd, sy'n arwain y diwydiant fel yr Hwb Arloesi yn Llysfasi a'r Academi Gofal Iechyd a Therapïau yn Iâl,** i ffurfio partneriaethau pwysig gyda'r GIG a chyflogwyr byd-eang, rydym yn esblygu o hyd. Mae'r straeon hyn yn amlygu sut rydym yn **grymuso ein dysgwyr yn weithredol i ffynnu, gan gynnwys gyrru economi'r Gogledd Ddwyrain yn ei blaen.**



**Lansiodd Coleg Cambria ac Ymddiriedolaeth Addysgol Savoy cegin hyfforddi cynhwysol o'r radd flaenaf ar ein safle Iâl.** Wedi'i ddadorchuddio gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, mae'r cyfleuster arloesol hwn yn sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn cael hyfforddiant lletygarwch hynod hygyrch. Mae hefyd yn ehangu gweithdai coginio arbenigol i helpu **cyflogwyr lleol i uwchsgilio'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant**.




**Llwyddodd pum prentis Coleg Cambria o bartneriaid y diwydiant Airbus a Teledyne Qioptiq i gyflawni llwyddiant rhagorol yng Ngwobrau Gweithgynhyrchu Rhanbarthol MAKE UK dros Gymru.** Gan sicrhau pedwar teitl rhanbarthol, mae'r dysgwyr talentog hyn yn symud ymlaen i'r rowndiau terfynol yn Llundain. Mae hyn yn profi bod ein partneriaethau cyflogwyr cadarn yn **datblygu'r gweithlu medrus iawn yn weithredol sydd ei angen i yrru gweithgynhyrchu ymlaen yng Nghymru**.



**Mae Coleg Cambria Llysfasi wedi lansio yn swyddogol ei Ganolfan Arloesi sydd werth £9 miliwn** ochr yn ochr â'r Gwobrau Dysgwr y Flwyddyn nodedig. Wedi'i gefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r cyfleuster carbon-niwtral, o'r radd flaenaf hwn yn darparu amgylchedd arloesol i'n myfyrwyr cyrsiau'r tir i feistroli'r sgiliau amaethyddol, amgylcheddol a thechnolegol sydd eu hangen i **yrru'r economi wledig ymlaen**.



Aeth y Prif Weinidog Eluned Morgan i ymweld â Choleg Cambria Iâl i **ddathlu lansiad yr Academi Gofal Iechyd a Therapïau newydd gwerth £16.2 miliwn.** Wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, mae'r adeilad o'r radd flaenaf hwn yn darparu sba o safon y diwydiant ac amgylchedd dysgu sy'n galluogi myfyrwyr i drochi mewn profiad byd go iawn, **gan roi'r profiad byd go iawn sydd ei angen ar fyfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ymuno â'r gweithlu yn hyderus**.



**I nodi 70 mlynedd ers dechrau Gwobr Dug Caeredin, mae Coleg Cambria yn falch o ddathlu cynnydd sy'n torri record mewn cyfraddau cwblhau**. Fel y prif sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru ar gyfer Dug Caeredin, rydym wedi cefnogi dros 400 o ddysgwyr i gyflawni eu gwobrau. Mae'r rhaglen gynhwysol iawn hon yn meithrin gwydnwch, sgiliau arwain a sgiliau awyr agored hanfodol, **gan sicrhau y gall pob myfyriwr gyflawni eu potensial llawn**.



**Wedi'i phweru'n llwyr gan ein myfyrwyr**, cynhaliodd Coleg Cambria Gynhadledd Ryngwladol nodedig Cynghrair y Colegau, gan groesawu dros 90 o arweinwyr addysg o bob cwr o'r DU ac Ewrop i Wrecsam. O reoli lletygarwch dan bwysau uchel i arwain gweithdai rhyngweithiol, cafodd ein dysgwyr brofiad byd go iawn trawsnewidiol wrth **arddangos ein hamgylchedd cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, i gynulleidfa fyd-eang**.



Ar ôl pum mlynedd o grefftwaith ymroddedig, mae staff a myfyrwyr **ar safle Ffordd y Bers Coleg Cambria wedi datgelu'r Ddraig Gyllyll drawiadol**. Wedi'i hadeiladu o filoedd o arfau a oedd wedi'u hatafaelu gan Heddlu Gogledd Cymru, mae'r cerflun syfrdanol hwn yn sefyll fel symbol pwerus yn erbyn troseddau cyllyll, gan drawsnewid trais yn **oleuni parhaol o obaith, diogelwch a chydweithrediad cymunedol**.




Mae Coleg Cambria Glannau Dyfrdwy wedi lansio **Canolfan Gosmetoleg arloesol, gyntaf o'i math**, yn swyddogol **i chwyldroi hyfforddiant gwallt a harddwch cynhwysol**. Mae'r ganolfan gymunedol o'r radd flaenaf hon yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar i gleientiaid sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i driniaeth, fel canser neu ddementia, gan rymuso ein dysgwyr gyda'r **profiad ymarferol arloesol sydd ei angen i ddod yn weithwyr proffesiynol sy'n barod ar gyfer y diwydiant**.




**Mae Coleg Cambria a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ffurfioli partneriaeth nodedig** i drawsnewid hyfforddiant gofal iechyd ledled Gogledd Cymru. Gan adeiladu ar ein rhaglen Cadetiaid Nyrsio flaenllaw, mae'r cytundeb hwn yn ehangu llwybrau clinigol hanfodol. Gan ddefnyddio'r Academi Gofal Iechyd a Therapïau gwerth £16.2 miliwn, **rydym yn datblygu'n weithredol y gweithlu meddygol medrus iawn, cartref sydd ei angen i gefnogi ein GIG a'n cymunedau lleol**.

# BYDDWCH YN RHAN O STORI CAMBRIA

COLEG CAMBRIA

## Diolch am gymryd amser i ddarllen ein Hadroddiad Effaith.

Rydym yn gobeithio bod y tudalennau yma wedi rhoi cip olwg pwerus i chi o sut mae Coleg Cambria yn newid bywydau'n weithredol, yn gyrru twf economaidd rhanbarthol ac yn grymuso'r genhedlaeth nesaf.

**Mae'r llwyddiannau sy'n cael eu harddangos yma wedi'u hadeiladu ar bartneriaethau cadarn.**

P'un ai eich bod chi'n gyflogwr sydd eisiau uwchsgilio eich gweithle, yn arweinydd cymunedol sydd eisiau gwneud gwahaniaeth, neu'n sefydliad sy'n rhannu ein gweledigaeth - Rydym eisiau clywed gennych chi.

**Gadewch i ni adeiladu dyfodol y Gogledd Ddwyrain gyda'n gilydd.**

**I ddechrau sgwrs am sut allwn ni gydweithio, cysylltwch â'n tîm ar marchnata@cambria.ac.uk.**